

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Ionawr 2014

Presennol, Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Terry Bullock, Michael Hughes, Karen Pugh, Gwawr Jones, Janet Charlton, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad, Jim Boughton, Medwen Hughes, Gareth Parry, Elisabeth Roberts.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Ragfyr 2013.

Materion yn Codi ;

[1] Yr Heddlu

Yn absenoldeb Heddlu Gogledd Cymru, y clerch i geisio e-bost ganddynt yn cyfeirio at faterion lleol pan nad oedd yn bosib iddynt ar adegau fod yn bresennol.

[1.1] Neidio o Bont-y-Pair

Eglurodd y clerch nad oedd dyddiad wedi ei drefnu eto, gan Gyngor BS Conwy ar gyfer cyfarfod.

[1.2] Cae Llan

Y clerch i atgoffa'r Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r addewid i deneuo'r coed ger y toiledau.

[1.3] Llwybr Cyhoeddus Rhif 41

Nodwyd copi o'r gorchymyn yn symud y llwybr o'r cyfeiriad arferol. Rhoddwyd copi yng ngofal y Cyng. Terry Bullock.

[1.4] Toiledau'r Neuadd Goffa

Rhoddwyd sylw i 3 pris i adnewyddu'r toiledau gan G Thomas, G W Griffiths ac G M Jones. Penderfynwyd dewis G M Jones, Ffordd Nebo, Llanrwst i ymgymryd ar gwaith.

[1.5] Tai Fforddiadwy

Cytunodd y Cyng Terry Bullock/Michael Hughes fynychu cyfarfod ar y safle ym Mhentre' Du am 11.00 y.b. dydd Iau 23ain Ionawr 2014.

[1.6] Camerâu/ Y Rhaeadr Ewynnol

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.7] Costau Parcio /Maes Parcio Pont-y-Pair

Croesawyd Mr Andrew Wilkinson [Cyngor BS Conwy] i'r cyfarfod. Mewn trafodaeth ynglŷn â materion parcio, gofynnwyd iddo ystyried caniatáu tocynnau parcio am ddim i ddefnyddwyr cyson y neuadd. Cytunodd Mr Wilkinson i adrodd yn ôl ar y mater.

[1.8] Cysgodfa Bws Pentre' Du

Nodwyd nad oedd y Cyngor Sir yn barod i adolygu taith y bws trwy Bentre' Du.

[1.9] Gwefan y Cyngor Cymuned

Cafwyd arddangosiad gan Mr Nick Ferguson o'r wefan a baratowyd ganddo ar gyfer y Cyngor. Cymeradwywyd y wefan i fod ar gael ar www.cyngorcymuned-betws-y-coedcommunitycouncil.org

Y Brîf agenda

[2] Materion Cynllunio

Cais i arddangos 4 arwydd ffasgia wedi eu goleuo'n allanol, 2 arwydd crog wedi eu goleuo'n allanol, 3 hysbysfwrdd wedi eu goleuo'n allanol a hysbysfwrdd heb ei oleuo. Gwesty Pont-y-Pair Ffordd Caergybi.

Penderfynwyd fod y nifer o arwyddion yn ymddangos yn ormodol ond dylai'r cynnig gael ei adael i sylw Awdurdod Cynllunio'r Parc Cenedlaethol.

[2.1]] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Rhagfyr 2013.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Rhagfyr 2013.

[c] Precept - Penderfynwyd peidio codi'r taliad precept sydd ar hyn o bryd wedi ei osod ar £6,000.00.

[2.2] Cais i ddarparu Gwasanaeth Fferyllfa gan Gwmni Boots

Cyfeiriodd y clerc at y ddau lythyr canlynol;

[a] Llythyr oddiwrth GIG Cymru yn cyfeirio at gais gan gwmni Boots i ddarparu gwasanaeth fferyllfa yn y pentref.

[b] Llythyr oddiwrth y feddygfa ym Mhentre' Du yn ceisio cefnogaeth y Cyngor Cymuned i wrthwynebu'r cais.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y byddai'r gwasanaeth o fudd i'r gymuned a phenderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais.

[2.3] Parti Gardd Palas Buckingham

Cytunodd y Cadeirydd Mr Gareth Wynne gynrychioli'r Cyngor os derbynnir gwahoddiad.

[2.4] Gwaith Celf Ffordd yr Orsaf

Gan nodi ymholiad oddiwrth APCE ynglŷn â'r gwaith celf sydd wedi ei osod heb ganiatad, y clerc i ymateb nad oedd gan y Cyngor yn anffodus ddim gwybodaeth i gynnig.

[2.5] Cynllun Chwarae'r Haf

Eglurodd y clerc bod cost o £428.00 i gynnal y cynllun yn ystod 2014. Penderfynwyd gwneud ymholiad ynglŷn a faint fu'n mynychu'r cynllun yn ystod 2013.

[2.6] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Menter Iaith Conwy –Cynllun Ynni Gwyrdd

[b] Llythyr o ddiolch gan Hen Eglwys Saint Mihangel.

[c] Unllais Cymru –Pwyllgor Ardal 22/1/14

[d]Cyngor Iechyd Cymuned – Defnydd yr Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd Lleol.

Cadeirydd _____